

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Deisebau

**Atal Recriwtio i'r Fyddin mewn
Ysgolion - Adroddiad ar yr
Ystyriaeth ar Ddeiseb**

Mehefin 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565
E-bost: SeneddDeisebau@Cynulliad.Cymru
Twitter: [@SeneddDeisebau](https://twitter.com/SeneddDeisebau)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Deisebau

**Atal Recriwtio i'r Fyddin mewn
Ysgolion - Adroddiad ar yr
Ystyriaeth ar Ddeiseb**

Mehefin 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Pwyllgor Deisebau

Sefydlwyd y Pwyllgor Deisebau ar 15 Mehefin 2011. Ei rôl yw ystyried yr holl ddeisebau derbyniadwy a gyflwynir gan y cyhoedd. Rhaid i'r deisebau fod ar faterion y mae gan y Cynulliad y pŵer i weithredu arnynt. Mae'r broses ddeisebau yn galluogi'r cyhoedd i amlygu materion ac i ddylanwadu'n uniongyrchol ar waith y Cynulliad. Mae ei swyddogaethau penodol wedi'u nodi yn Rheol Sefydlog 23.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



William Powell (Cadeirydd)
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Russell George
Ceidwadwyr Cymreig
Sir Drefaldwyn



Bethan Jenkins
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



Joyce Watson
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cynnwys

Argymhellion y Pwyllgor	5
Y Ddeiseb	6
Ystyriaeth y Pwyllgor ar y Ddeiseb	7
Yr Ystyriaeth Gychwynnol.....	7
Yr Ymgynghoriad Ysgrifenedig.....	8
Crynodeb o'r Ymgynghoriad Ysgrifenedig	9
Diffinio recriwtio a dulliau recriwtio	10
Anfanteision a manteision ymweliadau'r lluoedd arfog ag ysgolion	12
Targedu ardaloedd difreintiedig.....	15
Ethos milwrol	16
Cyrhaeddiad addysgol y recriwtiaid.....	17
Deddfwriaeth	18
Tystiolaeth Lafar a Thystiolaeth Bellach	18
Tystiolaeth Lafar gan y Deisebwyr, Ban Schoolyard Recruitment a ForcesWatch.....	19
Adroddiad Newydd Forces Watch	21
Ysgol Uwchradd Prestatyn	21
Barn y Pwyllgor a'i Argymhellion	24
Casgliad	28
Atodiad A – Rhestr Ddosbarthu'r Ymgynghoriad Ysgrifenedig	29
Atodiad B – Rhestr Tystion	31
Atodiad C – Rhestr o Ymatebion i'r Ymgynghoriad	32
Atodiad D - Rhestr o'r Dystiolaeth Ysgrifenedig	34

Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru wedi'u rhestru isod, yn y drefn y gwelir nhw yn yr adroddiad hwn. Gweler y tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth ategol a'r casgliadau:

Argymhelliad 1. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried a oes angen rhagor o ymchwil ar y rhesymau dros y nifer anghymesur i bob golwg o ymweliadau ag ysgolion mewn ardaloedd cymharol ddifreintiedig. (Tudalen 25)

Argymhelliad 2. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu Fframwaith y Cwricwlwm Gyrfaoedd a Byd Gwaith er mwyn sicrhau bod canllawiau ar wahodd y lluoedd arfog i ysgolion yn cymryd i ystyriaeth eu natur unigryw fel gyrfa a'r angen i hybu trafodaeth agored a gonest gyda'r disgyblion am eu rôl. (Tudalen 26)

Argymhelliad 3. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o ystyriaeth i'r ffordd orau i helpu ysgolion, busnesau a chyflogwyr i sicrhau bod ystod amrywiol o fusnesau a chyflogwyr yn ymweld ag ysgolion i roi gwybodaeth i'r disgyblion am y cyfleoedd gyrfa y maen nhw'n eu cynnig. (Tudalen 27)

Y Ddeiseb

1. Cafodd y ddeiseb a ganlyn¹ ei chyflwyno gan Gymdeithas y Cymod gan ddefnyddio system ddeisebau ar-lein y Cynulliad:

“Teitl - ‘Atal Recriwtio i’r Fyddin mewn Ysgolion.’

“*Testun* - Rydym yn galw ar y Cynulliad Cenedlaethol i annog Llywodraeth Cymru i argymhell na ddylai’r lluoedd arfog fynd i ysgolion i recriwtio.

“*Gwybodaeth Ychwanegol* - Prydain yw yr unig wlad yn yr Undeb Ewropeaidd sy’n caniatáu presenoldeb milwrol yn ei ysgolion. Prydain yw yr unig wlad o 27 gwlad yr Undeb Ewropeaidd i recriwtio plant 16 oed i’r lluoedd arfog. Mae’r lluoedd arfog yn targedi ei recriwtio i ysgolion mewn ardaloedd fwyaf difreintiedig Cymru.”

2. Casglodd y ddeiseb 374 o lofnodion ar-lein. Casglodd deiseb berthynol oddeutu 700 o lofnodion heb fod ar-lein.

¹ Rhif cyfeirnod y ddeiseb P-04-432

Ystyriaeth y Pwyllgor ar y Ddeiseb

Yr Ystyriaeth Gychwynnol

3. Ystyriodd y Pwyllgor y Ddeiseb am y tro cyntaf ar 6 Tachwedd 2012 gan gytuno i ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau i ofyn ei farn ef am y ddeiseb.
4. Dywedodd ymateb y Dirprwy Weinidog Sgiliau ar y pryd:²
 - mai'r Corff Llywodraethu sy'n gyfrifol am reoli'r defnydd o safle'r ysgol. Y pennaeth sy'n gyfrifol am y trefnu mewnol, y cynllunio a rheoli'r ysgol o ddydd i ddydd, sy'n cynnwys penderfynu pwy sy'n cael dod ar safle'r ysgol;
 - bod gan ysgolion a chyrrff llywodraethu gyfrifoldeb i ymateb i anghenion disgyblion a darparu'r wybodaeth briodol am yrfaedd a bod ymweliadau addysgol gan ystod eang o gyflogwyr posibl yn digwydd yn erbyn cefndir y ddarpariaeth hon;
 - gallai cyfyngu ar gyfle'r lluoedd arfog i fynd i'r ysgolion osod rhai pobl ifanc o dan anfantais, gan na fyddant wedi derbyn yr wybodaeth am yr ystod lawn o yrfaedd sydd ar gael, gan gynnwys rhai sy'n cynnig hyfforddiant o safon uchel iawn.
5. Yn eu hymateb³ i lythyr y Gweinidog, gwnaeth y deisebwyr y pwyntiau a ganlyn:
 - ei bod yn bwysig darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd a chytbwys i bobl ifanc am yrfaedd, hyd yn oed yn y lluoedd arfog;
 - bod y ddeiseb wedi gofyn i Lywodraeth Cymru annog ysgolion i beidio â chaniatáu i'r lluoedd arfog recriwtio [ein pwyslais ni] plant;
 - bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi dweud bod y lluoedd arfog yn mynd i mewn i ysgolion i recriwtio plant ac felly nad yw wedi darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd a chytbwys am yrfaedd i bobl ifanc;

² Llythyr dyddiedig 4 Rhagfyr 2012 gan Jeff Cuthbert AC, y Dirprwy Weinidog Sgiliau

³ Llythyr dyddiedig 14 Rhagfyr 2012 oddi wrth Arfon Rhys, Ysgrifennydd Mygedol Cymdeithas y Cymod yng Nghymru

- bod y ddeiseb yn cyd-fynd â galwad Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawl y Plentyn yn 2008 a ddywedodd y dylai gwladwriaeth y Deyrnas Unedig “ailystyried ei pholisi o recriwtio plant i’r lluoedd arfog...”;
- bod y ffaith bod y lluoedd arfog yn ymweld ag ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig 50% yn fwy aml nag ardaloedd cyfoethog yng Nghymru yn profi mai eu hamcan yw recriwtio plant.

6. Cafodd yr ohebiaeth ei hystyried mewn cyfarfod dilynol o’r Pwyllgor pan gytunwyd lansio ymgynghoriad cyhoeddus ar y ddeiseb a, yn ôl yr ymatebion i’r ymgynghoriad, cynnal sesiynau tystiolaeth lafar.

Yr Ymgynghoriad Ysgrifenedig

7. Cyhoeddodd y Pwyllgor llythyr ymgynghori ar 20 Chwefror 2013, a aeth allan at ystod eang o sefydliadau. Mae’r rhestr ddisbarthu lawn ar gael yn Atodiad A.

8. Gofynnodd y llythyr ymgynghori am sylwadau am y lluoedd arfog yn darparu cyngor gyrfaedd neu hyfforddiant mewn ysgolion, neu a yw hwn yn wasanaeth y rhoddir gwerth arno. Gofynnodd y llythyr hefyd am sylwadau ynghylch a oedd unrhyw wahaniaethau yn y modd yr oedd y lluoedd arfog yn gweithio mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol ac mewn ysgolion annibynnol. Cafodd y cwestiynau penodol a ganlyn eu cynnwys hefyd:

- a oes gennych unrhyw bryderon am y lluoedd arfog yn rhoi cyngor gyrfaedd mewn ysgolion neu a ydych yn croesawu'r ffaith bod cyngor o’r fath ar gael?
- beth yw manteision ac anfanteision bod y lluoedd arfog yn rhoi cyngor gyrfaedd mewn ysgolion?
- pa effaith, os o gwbl, y byddai rhwystr o’r lluoedd arfog rhag dod i ysgolion yn ei chael ar sicrhau bod gwybodaeth am yrfaedd yn y lluoedd arfog ar gael i bobl ifanc?
- a oes gennych unrhyw dystiolaeth bod y lluoedd arfog yn targedu ysgolion mewn ardaloedd mwy difreintiedig gyda'u gweithgareddau?
- a fydd y lluoedd arfog yn gweithio mewn ffordd wahanol mewn ysgolion annibynnol ac mewn ysgolion awdurdodau lleol?

9. Cafodd y Pwyllgor 30 o ymatebion. Gellir dadansoddi'r rhain yn fras fel a ganlyn:

- 10 o unigolion;
- 7 o gyrff crefyddol neu unigolion a nododd mai crefyddwyr oedden nhw;
- 3 undeb athrawon;
- 2 gorff cynrychioliadol;
- 3 mudiad ymgyrchu.

10. Cafwyd ymatebion hefyd gan un awdurdod lleol, un ysgol, un fforwm ieuentid lleol, Jill Evans, Aelod o'r Senedd Ewropeaidd (ASE) ac un gan y Comisiynydd Plant.

11. Roedd y mwyafrif o'r ymatebion (ugain) yn cefnogi nodau'r ddeiseb. Y mwyafrif o'r unigolion, y grwpiau crefyddol, yr ASE, yr ysgol a'r mudiadau ymgyrchu oedd biau'r ymatebion hyn. Mynegodd chwech o'r ymatebion bryderon ynghylch nodau'r ddeiseb, gan gynnwys:

- y dylai fod gan y lluoedd arfog yr un hawl â sefydliadau eraill i ddarparu cyngor am yrfaeodd;
- y dylid croesawu pob cyngor am yrfaeodd;
- mai gwahaniaethu fyddai atal y lluoedd arfog rhag darparu gwasanaeth o'r fath.

12. Barn gymysg oedd gan y pedwar arall neu doedden nhw ddim o blaid nac yn erbyn y ddeiseb.

Crynodeb o'r Ymgynghoriad Ysgrifenedig

13. Mae dadansoddiad manylach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad⁴ yn dangos bod yr ymatebion yn ymrannu'n gategorïau bras fel a ganlyn:

- diffinio recriwtio a dulliau recriwtio;
- anfanteision a manteision ymweliadau'r lluoedd arfog ag ysgolion;
- targedu ardaloedd difreintiedig;
- ethos y lluoedd arfog;

⁴ Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael ar wefan y Cynulliad - <http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=4793>

- cyrhaeddiad addysgol y recriwtiaid; a
- deddfwriaeth.

Diffinio recriwtio a dulliau recriwtio

14. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig⁵, dywedodd y deisebwyr:

“Nid yw pob cyflogwr yn mynd i mewn i ysgolion, ond mae'r lluoedd arfog yn gwneud er mwyn recriwtio'r plant.”

15. Fe wnaethant bwynt arall hefyd:

“Nid yw'r lluoedd arfog yn rhoi gwybodaeth gyrfa gytbwys a chywir i blant gan fod dim sôn am yr hawliau gadael, y cyfnod o wasanaeth, nac am y raddfa o risg anaf neu ladd.”

16. Dywedodd ForcesWatch yn eu tystiolaeth ysgrifenedig nhw:

“recruitment is at the heart of armed forces engagement with education”

17. Mae Forces Watch yn dweud y bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r lluoedd arfog yn honni nad ydyn nhw'n 'recriwtio' mewn ysgolion. Maen nhw'n mynd ymlaen i ddweud bod cyfran sylweddol o ymweliadau'r lluoedd arfog ag ysgolion yn cynnwys digwyddiadau a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gyrfaedd, megis cyflwyniadau am waith y lluoedd arfog.

18. Dywedodd Forces Watch nad yw honiad y Weinyddiaeth Amddiffyn mai dim ond ar ôl cael eu gwahodd gan aelod o'r staff y bydd y lluoedd arfog yn ymweld ag ysgolion yn golygu fawr ddim, gan fod ar unrhyw ymwelydd allanol angen gwahoddiad a bod y lluoedd arfog yn mynd at yr ysgolion yn gyntaf i gynnig eu gwasanaeth er mwyn sicrhau gwahoddiad.

19. Er hynny, yn eu hymateb nhw i'r ymgynghoriad, dywedodd Cymdeithas Lluoedd Wrth Gefn a Chadetiaid Cymru:

“None of the Armed Forces visit schools for recruitment purposes and only attend by invitation from the school who welcome us in to support school activities that form part of the

⁵ Cyflwynodd y Deisebwyr, ForcesWatch a Ban Schoolyard Recruitment ragor o dystiolaeth ysgrifenedig wedyn i baratoi at eu tystiolaeth lafar ar 18 Mehefin 2013, ac ystyrir honno yma hefyd ynghyd â'r ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad.

National Curriculum. As an integral part of society and an important highly valued public service these visits have proven to be of great benefit to pupils, as demonstrated by the fact that the Services attend several thousand schools each year. Equally such visits add to school career advisers collection of employment options that are on offer in order to prepare their pupils for work in the future. In simple terms it is about providing careers advice and only that. As you will appreciate the Armed Forces present significant opportunities in terms of skills and trades and future careers.”

20. Roedd Cymdeithas Lluoedd Wrth Gefn a Chadetiaid Cymru hefyd wedi gofyn barn y Weinyddiaeth Amddiffyn, a ddywedasai wrthyn nhw:

“it is not possible to sign up for the Armed Forces outside of a recruitment office and all recruitment into the UK Armed Forces is voluntary and no young person under the age of 18 years can join our Armed Forces unless their application is accompanied by the formal written consent of their parent or guardian. Comprehensive written and verbal guidance on the terms and conditions of Service and rights to discharge during the selection process are provided at various times before the parent or guardian provides their formal written consent for the individual to enter Service.”

21. Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru ar y pryd fod gwrth-ddweud rhwng gosodiadau'r Weinyddiaeth Amddiffyn nad yw'r Fyddin yn recriwtio mewn ysgolion a chyflwyniad gwladwriaeth y Deyrnas Unedig o dan Erthygl 8, paragraff 1, o'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ynghylch Cynnwys Plant mewn Gwrthdaro Arfog. Mae'r cyflwyniad hwnnw'n dweud bod mentrau recriwtio'n cynnwys cyflwyniadau mewn ysgolion gan gynghorwyr gyrfaoedd y Fyddin, amrywiaeth o weithgareddau tîm ieuenctid y Fyddin a thîm recriwtio'r Fyddin, cyfnodau cysylltiad ac ymweliadau ag unedau, ffeiriau mewn ysgolion, Llu Cyfun y Cadetiaid, mentrau hysbysebu a marchnata, aelodaeth o Glwb *Camouflage* y Fyddin. Dywedodd y Comisiynydd Plant:

“This contradiction needs to be resolved. I believe clarity is needed so that headteachers, pupils and parents are aware of the nature of MoD activity and can make informed decisions on

whether or not they wish to be exposed to any presentations in school.”

22. Dywedodd y Comisiynydd Plant hefyd:

“In presenting career options, the MoD has a responsibility to present a balanced and accurate picture. [...] I do have some reservations regarding the MoD’s ability to offer a balanced picture of military life. This statement is based purely on anecdotal examples of MoD online materials aimed at young people, for instance the Camouflage site:

<http://army.mod.uk/camouflage/default.aspx>”

23. Dywedodd ymateb Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful y dylid nodi bod cynghori yn wahanol i recriwtio.

24. Er eu bod yn gresynu ynghylch recriwtio yn 16 oed, dywedodd Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC):

“Serch hynny, rhaid derbyn bod y lluoedd arfog yn cynnig broffesiynau cydnabyddedig a chyfreithlon.

“Yn sgil hynny, credwn, o safbwynt ysgolion, ei bod hi’n bwysig ceisio gwahaniaethu rhwng recriwtio ar y naill law, a darparu cyngor gyrfaoedd ar y llall.”

Anfanteision a manteision ymweliadau’r lluoedd arfog ag ysgolion

25. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig nhw, dywedodd Forces Watch:

“Military engagement with young people should be avoided as it is not benign and is potentially damaging to the future interests and opportunities of those young people they seek to influence”

26. Ar sail gwybodaeth am ysgolion uwchradd Cymru a gafwyd drwy gyfrwng y Ddeddf Rhyddid gwybodaeth, dywedodd Forces Watch:

“The greatest number of visits made by the army were focused on mock interviews and interview techniques, general presentations (which include a section on the types of careers available in the military), and Personal Development Activities (generally outdoor, team-building activities). Presentations and activities exclusively focused entirely on careers (such as stalls

at careers fairs, presentations about early entry to the military, etc...) made up 7.5% of visits (equivalent to nearly 100 visits).”

27. Mae'n ymddangos bod yr ystadegau a ddarparodd Forces Watch hefyd yn dangos mai cyflwyniadau cyffredinol (sy'n cynnwys trosolwg cyffredinol ar waith y fyddin ac adran am y mathau o yrfaeod sydd ar gael yn y fyddin) a gweithgareddau sy'n canolbwyntio'n benodol ar yrfaeod yw 28.5 y cant o'r ymweliadau ag ysgolion yng Nghymru. Roedd yr ymweliadau eraill yn ymwneud â thechnegau mewn cyfweliadau, adeiladu tîm, arweinyddiaeth, cyfoethogi'r cwricwlwm, gweithdai yn canolbwyntio ar y fyddin, cyflwyniadau ar ddinasyddiaeth, menter, ffitrwydd a chwaraeon a mentora.

28. Fel yr amlinellwyd uchod, ysgrifennodd y Dirprwy Weinidog Sgiliau at y Pwyllgor ar 4 Rhagfyr 2012. Dywedodd ei lythyr:

“Byddai peidio â gadael i'r lluoedd arfog ymweld ag ysgolion, fel y mae'r ddeiseb hon yn awgrymu, olygu bod rhai disgyblion o dan anfantais, gan na fyddant wedi derbyn yr wybodaeth am yr ystod lawn o yrfaeod sydd ar gael, gan gynnwys rhai sy'n cynnig hyfforddiant o safon uchel iawn.”

29. Cafodd y farn hon ei hatseinio gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn eu hymateb nhw i'r ymgynghoriad.

30. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC):

“The engagement of young people with the Armed Forces may help some young people with self-esteem and confidence issues, as well as developing resilience and wider skills and may encourage them to take part in healthy (mainly outdoor) activities. This can also include helping them to make informed decisions as to whether they want to join the Armed Forces. It is important that young people should receive objective guidance on joining the Armed Forces. Many young people use the opportunity of visiting Armed Forces to help inform their decisions for a future career.”

31. Dywedodd UCAC:

“...byddai UCAC yn amddiffyn hawl disgyblion i dderbyn gwybodaeth am y lluoedd fel llwybr gyrfa ôl-18 posib yng nghyd-destun derbyn gwybodaeth am lwybrau gyrfa amrywiol

eraill. Ni fyddai'n briodol i geisio rhwystro disgyblion rhag derbyn yr wybodaeth hon a allai arwain at yrfa.”

32. Yn ei ymateb yntau, dywedodd pennaeth ysgol annibynnol, a oedd yn dymuno aros yn ddiennw:

“Provided the armed forces are treated equally to other organisations in careers advice and their access to schools, I can see no objection to their visiting schools or being included in careers advice. Many aspects of the armed forces provide valuable career pathways that do not involve combat – engineering, medicine, logistics, personnel etc – that can be of great benefit to individuals within a well-structured and disciplined working environment.”

33. Aeth ymlaen i ddweud:

“There seems to be a dangerous element of discrimination here – if the forces’ 16+ recruitment is considered morally wrong, should not all prospective employers or recruiters be scrutinised for their ethics before having any involvement in schools – retailers of goods produced in sweatshops or tested on animals, banks, companies with questionable investment policies, organisations with a bad environmental record etc etc?”

34. Yn eu hymateb nhw i'r ymgynghoriad, dywedodd Cymdeithas Lluoedd Wrth Gefn a Chadetiaid Cymru:

“...such visits add to school career advisers collection of employment options that are on offer in order to prepare their pupils for work in the future. In simple terms it is about providing careers advice and only that. As you will appreciate the Armed Forces present significant opportunities in terms of skills and trades and future careers.”

A hefyd:

“If Armed Forces careers advice in schools is denied this will discriminate against exactly the specific group of people that the Welsh Government are trying to support and help in terms of finding and securing employment.

“Today, the Armed Forces are considered small in number and exposure to the career opportunities is limited to a handful of careers offices across Wales and advertising. I believe restricting the impact will deny young people in Wales the chance to consider the Armed Forces as an option for their future careers.”

35. Dywedodd y Weinyddiaeth Amddiffyn, mewn sylwadau a sicrhodd Cymdeithas Lluoedd Wrth Gefn a Chadetiaid Cymru:

“Similar contributions to schools are made by police, fire, ambulance, emergency and other services and professions. The Armed Forces get numerous informal and official requests from schools every year and get no special treatment or access, but neither should they be excluded or discriminated against.”

36. Yn eu hymateb nhw, dywedodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru (ASCL):

“We have concerns about the principles underpinning this petition. What are the implications of a government influencing, whether explicitly or implicitly by means of advice, which legally permitted careers young people should receive information and advice on? Would support for this petition set precedents by which other careers, such as banking, might be deemed unacceptable in the future? Indeed, might it even mean that schools should not allow any elected politician into school in case he/she may recruit new party members?”

37. Aethant ymlaen i ddweud: “a total prohibition on all contact with representatives of the Armed Forces could be interpreted as being an attempt to influence choices”.

Targeddu ardaloedd difreintiedig

38. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y deisebwyr:

“Yn amlwg fel gwlad dlawd mae Cymru yn cael ei thargeddu gan y Fyddin.”

39. Dywedodd ForcesWatch fod ysgolion a gynhelir yng Nghymru'n debycach o gael ymweliad gan y Fyddin na rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, ond nad oedd hynny'n wir o ran ysgolion annibynnol.

“Within Wales schools with a more disadvantaged demographic [...] were not visited a significant number more times than those with less deprived demographics. However, the high average number of visits during a year compared to other areas in the UK suggests that there is increased engagement of the armed forces with local authority schools in Wales as a whole compared to, for example, the South East of England where the number of visits is substantially lower.”

40. Maen nhw'n dweud hefyd fod y fyddin wedi ymweld, yn ystod 2010-11 a 2011-12, â 163 (74 y cant), o ysgolion uwchradd y wladwriaeth yng Nghymru.

“To put this in a national context, in London all three armed forces had visited less than 30% of state schools and in Scotland over 85% were visited by the three forces. The army alone visited Welsh state schools an average of twice a year during that period (compared with just once in London for all three services and twice in Scotland).”

A hefyd:

“...of the 21 independent schools registered with the Welsh Independent Schools Council, only six, or 29% have been visited by the army compared to 75% for state schools.”

41. Er hynny, dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful nad oedd tystiolaeth yn lleol fod y lluoedd arfog yn targedu eu gweithgareddau yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.

Ethos milwrol

42. Yn Atodiad 1 o dystiolaeth ysgrifenedig ForcesWatch, maen nhw'n dweud:

“In the past six months there has been an increase in visible efforts to integrate the military into national education policy.”

43. Maen nhw'n cyfeirio at raglen sgiliau ac ethos milwrol Adran Addysg y Deyrnas Unedig; at gyhoeddiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig o gyllideb o bron £11m i ehangu unedau cadetiaid i ysgolion y wladwriaeth; ac at raglen y Mentoriaid Milwrol, gan ddweud:

“The Department for Education states that “these programmes will give young people the opportunity to develop teamwork, self-discipline, resilience and leadership” but do not explain what is meant by 'military ethos' or why a military framework will develop these skills more effectively than one based in other 'service' contexts. Furthermore, that there may be aspects of a 'military ethos' that are not appropriate to education does not seem to have been considered.”

Cyrhaeddiad addysgol y recriwtiaid

44. Er cydnabod nad mater datganoledig yw addysg y lluoedd arfog, mae'r deisebwyr yn dweud bod y lefelau yn y cwricwlwm rhifedd a llythrennedd yn y lluoedd arfog yn is na'r lefel sydd wedi'i hargymell ar gyfer y grŵp oedran hwnnw. Er na roesant ffynhonnell uniongyrchol yr wybodaeth hon, cyfeiriasant at Adroddiad Wolf.⁶

45. Cafodd yr Adroddiad ei gomisiynu yn Lloegr gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg, Michael Gove, i ystyried sut i wella addysg alwedigaethol pobl ifanc 14-19 oed a hybu cynnydd llwyddiannus i mewn i'r farchnad lafur a llwybrau tuag at addysg a hyfforddiant ar lefel uwch. Argymhellodd yr Adroddiad y dylai fod yn ofynnol, fel rhan o'u rhaglen, i fyfyrwyr sydd o dan 19 oed ac sydd heb TGAU A*-C mewn Saesneg a/neu Fathemateg, ddilyn cwrs sydd naill ai'n arwain yn uniongyrchol at y cymwysterau hyn, neu sy'n rhoi cynnydd arwyddocaol tuag at gofrestru a llwyddo ar lefel TGAU yn y dyfodol.

46. Dywedodd tystiolaeth gan Child Soldiers International a gyflwynwyd i Bwyllgor Dethol Amddiffyn Tŷ'r Cyffredin ac i'r Pwyllgor Deisebau fod y fyddin yn recriwtio niferoedd llawer uwch na'r ddau wasanaeth arall ar y cyd a bod y mwyafrif mawr o'r rhain erbyn hyn yn dilyn hyfforddiant Cyfnod Un yng Ngholeg Sylfaen y Fyddin yn Harrogate (AFC Harrogate). Dywedasant eu bod o'r farn bod y ddarpariaeth yn AFC Harrogate yn annigonol gan mai Sgiliau Gweithredol yn unig sy'n cael eu cynnwys yn hytrach na chymwysterau TGAU.

⁶ [Review of Vocational Education, Adroddiad Wolf](#)

47. Yn ei hymateb hi i'r ymgynghoriad, dywedodd Jill Evans ASE:

“Armed forces recruitment concentrates on poorer schools more often, as well as on young people with low educational attainment.”

Deddfwriaeth

48. Galwodd y ddeiseb fel y'i cyflwynwyd am i'r Cynulliad annog Llywodraeth Cymru i argymhell na ddylai'r lluoedd arfog fynd i ysgolion i recriwtio. Mae'r deisebwyr yn cydnabod nad yw'r pwerau ynglŷn â'r lluoedd arfog wedi'u datganoli ac maen nhw'n gofyn i ysgolion gael eu hannog i beidio â'u gwahodd. Ond, yn eu tystiolaeth ysgrifenedig nhw, mae Leon Russell a Sara Hawys yn dweud:

“The outcome of the petition has broader relevancy than the question of MOD recruitment in schools, and may serve as something of a test-case for the depth of autonomy of the Welsh legislature, following the March 2011 referendum for increased powers.

“We feel that this petition faces Welsh politicians with the dilemma over whether to truly represent the interests and values of the people of Wales, or to simply serve other interests. Has the Assembly become sufficiently democratic that it legislates on behalf of the welfare of the children under its care, in opposition to the requirements of the UK military-industrial complex?”

49. Maen nhw'n mynd ymlaen i ddweud:

“The question of Ministry of Defence recruiters' pursuit of minors in the school environment offers a very clear case for legislative change on moral grounds alone.”

Tystiolaeth Lafar a Thystiolaeth Bellach

50. Yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad, cytunodd y Pwyllgor gymryd tystiolaeth lafar i ddechrau gan y Deisebwyr, Forces Watch a Ban Schoolyard Recruitment, sef mudiadau sy'n ymgyrchu ar y pwnc.

51. Wedyn, ymwelodd y Pwyllgor ag Ysgol Uwchradd Prestatyn gan siarad yn anffurfiol â grŵp o fyfyrwyr yn ogystal â chymryd tystiolaeth

lafar gan un o'r athrawon, Mr Alex Barons, a chan dri o'r disgyblion, Daisy Major, Sebastian Collings a Holly Hinson.

Tystiolaeth Lafar gan y Deisebwyr, Ban Schoolyard Recruitment a Forces Watch

52. Ar 18 Mehefin 2013, cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Arfon Rhys, Cymdeithas y Cymod (y prif ddeisebydd); Sara Hawys, Ban Schoolyard Recruitment ac Emma Sangster, ForcesWatch. Mae trawsgrifiad llawn y sesiwn ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol.⁷ I grynhoi, dyma a ddywedwyd:

- nad yw'r un wlad arall yn Ewrop nac yn NATO yn recriwtio plant 16 oed;
- bod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gosod cyfrifoldeb ar y Gweinidog Addysg a Sgiliau i sicrhau bod yr wybodaeth am yrfaeodd mewn ysgolion yn gytbwys ac yn gyflawn;
- mai gwael yw addysg plant sydd yn y fyddin;
- er bod gwaith y lluoedd arfog mewn ysgolion yn cael ei gyfrif yn waith 'hybu', fod hyn yn arwain at recriwtio. Does dim tystiolaeth bod plant yn cael eu 'cofrestru' ond mae'r gwaith mewn ysgolion yn rhan o'r broses;
- o ran deilliannau, nad oes modd pennu'n benodol a yw gwaith y lluoedd arfog mewn ysgolion yn llwyddiannus o ran recriwtio pobl ifanc;
- bod arddangosfeydd y lluoedd arfog yn dangos darlun cyffrous i blant ysgol, ond nad oes trafod ar effeithiau lladd na risgiau brwydro. Nid yw ochr dreisiol y lluoedd arfog yn cael ei chyfleu;
- nad rôl y lluoedd arfog o reidrwydd yw cynnig cydbwysedd mewn cyngor gyrfaeodd, ond y dylai pobl eraill ddarparu golwg wahanol;
- bod y lluoedd arfog yn neilltuo adnoddau aruthrol i'w gwaith mewn ysgolion;
- mai Gyrfa Cymru a ddylai fod yn gyfrifol am ddarparu cyngor gyrfaeodd ynglŷn a'r lluoedd arfog;

⁷ [Trawsgrifiad](#) o gyfarfod y Pwyllgor Deisebau ar 18 Mehefin 2013

- nad oes gwerth addysgol mewn ymweld ag un o ganolfannau'r lluoedd arfog;
- gan ddibynnu ar yr wybodaeth a ddefnyddir, ei bod yn ymddangos bod ysgolion Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn gweld cyfran uwch o ymweliadau gan y lluoedd arfog a bod arwyddion bod ardaloedd penodol yng Nghymru a Chymru yn ei chrynswth yn gweld nifer uwch o ymweliadau ag ysgolion.

53. Yn dilyn y cyfarfod, ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor at y Gwir Anrh Mark Francois, y Gweinidog dros Bersonél Amddiffyn, Lles a Chynfilwyr i ofyn am ragor o wybodaeth am y deilliannau y dymunid eu cael o ymwneud â phobl ifanc mewn ysgolion.

54. Ailadroddodd ymateb y Gweinidog⁸ nad yw'r lluoedd arfog yn recriwtio mewn ysgolion ac nad ydyn nhw'n mynd i ysgolion ond ar wahoddiad yr ysgolion eu hunain. Dywedodd y Gweinidog hefyd nad yw'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cofnodi dangosyddion perfformiad ar gyfer eu holl weithgareddau addysgol, ond bod arolwg sampl a wnaed rhwng mis Mehefin a Gorffennaf 2013 wedi gweld bod 74 y cant o ysgolion yn credu bod y Fyddin yn rhoi cyngor diduedd am yrfaoedd (sampl o 303). Roedd 61 y cant o'r rhai a gredai ei bod yn bosibl nad oedd y Fyddin yn ddiuedd yn credu y bydden nhw'n dal yn gwahodd y Fyddin i roi cyflwyniadau gyrfaoedd.

55. Ysgrifennodd y Cadeirydd hefyd at Gyrfa Cymru i ofyn am wybodaeth am y mathau o gyflogwyr eraill sy'n mynd i mewn i ysgolion. Mewn ymateb,⁹ dywedodd Gyrfa Cymru eu bod nhw, fel rhan o'u rôl mewn Partneriaethau Addysg Busnes, yn hwyluso cysylltiadau rhwng cyflogwyr ac ysgolion i helpu'r ysgolion i gyflwyno fframwaith y Cwricwlwm Gyrfaoedd a Byd Gwaith. Roedd y mathau o gyflogwyr a gâi eu cysylltu ag ysgolion drwy gyfrwng Gyrfa Cymru yn 'niferus ac amrywiol'. Y flwyddyn cynt, bu Gyrfa Cymru'n cydweithio â mwy nag 21,000 o gyflogwyr. Mae'r lluoedd arfog, fel llawer o gyrff eraill, yn cynnig eu gwasanaethau'n uniongyrchol i'r ysgolion.

⁸ Llythyr ar 30 Medi 2013 oddi wrth y Gwir Anrh Mark Francois, y Gweinidog dros Bersonél Amddiffyn, Lles a Chynfilwyr at William Powell AC. Fe'i hystyriwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar [11 Tachwedd 2013](#).

⁹ Llythyr ar 8 Awst 2013 oddi wrth Ray Collier, Prif Weithredwr Interim Gyrfa Cymru at William Powell AC. Fe'i hystyriwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar [10 Rhagfyr 2013](#).

Adroddiad Newydd Forces Watch

56. Ar 28 Hydref 2013, cyhoeddodd ForcesWatch adroddiad, *The Last Ambush? Aspects of mental health in the British armed forces*,¹⁰ sy'n honni bod recriwtiaid ifanc, o'u cymharu â phersonél hŷn, gryn dipyn yn debycach o ddioddef anhwylder straen wedi trawma (PTSD); yfed ar lefelau sy'n niweidiol i iechyd; ac ymddwyn yn dreisgar ar ôl dychwelyd o'r rhyfel. Recriwtiaid ifanc o gefndir difreintiedig sy'n wynebu'r risg fwyaf. Mewn ymateb,¹¹ nodwyd bod y Weinyddiaeth Amddiffyn wedi dweud:

"It is also important to put these figures in context as independent research shows the rates of PTSD are similar to rates in the civilian population and the rates of suicide are actually lower."

Ysgol Uwchradd Prestatyn

57. Ar 11 Tachwedd 2013, ymwelodd y Pwyllgor ag Ysgol Uwchradd Prestatyn lle cafodd gyfarfod preifat â grŵp o fyfyrwyr a oedd yn astudio'r cwrs Gwasanaethau Cyhoeddus a grŵp o fyfyrwyr a oedd yn dilyn cwrs Byddin yn yr ysgol, ac yn mynd i Wersyll Cinmel yn gyson.

58. Yn nes ymlaen y diwrnod hwnnw, cyfarfu'r Pwyllgor yn ffurfiol yn Ysgol Uwchradd Prestatyn a chymryd tystiolaeth lafar gan Mr Alex Barons, uwch-arweinydd cyswllt yn yr ysgol, Ms Daisy Major, disgybl ym mlwyddyn 11, Mr Sebastian Collings, disgybl ac aelod o gyngor yr ysgol a Ms Holly Hinson, un o brif ferched yr ysgol sydd hefyd yn aelod o gyngor yr ysgol.

59. Yn y cyfarfod preifat, trafododd aelodau'r Pwyllgor a'r myfyrwyr y ddeiseb ac ystyried safbwyntiau ar waith y lluoedd arfog gydag ysgolion. Yn ystod y trafod, daeth nifer o faterion i'r golwg:

- doedd disgyblion ddim yn teimlo eu bod yn cael eu 'recriwtio' mewn digwyddiadau a oedd yn cynnwys y lluoedd arfog a doedden nhw ddim yn teimlo pwysau i ymuno;
- er bod rhai amheuan, roedd y disgyblion o dan sylw yn gryf o blaid rhoi cyfle i'r lluoedd arfog fynd i mewn i ysgolion;

¹⁰ [The Last Ambush? Aspects of mental health in the British armed forces](#)

¹¹ Gwefan y Guardian, [Young British army recruits at higher risk of PTSD and suicide, says report](#), 28 Hydref 2013 [wedi'i chyrchu 9 Ebrill 2015]

- roedd yna safbwyntiau gwahanol ynghylch yr oedran cywir ar gyfer cysylltiadau â'r lluoedd arfog. Roedd rhai disgyblion yn credu bod 16 yn rhy ifanc i wneud penderfyniadau am yrfa ond roedd eraill yn credu ei bod yn dda dechrau meddwl am y materion hyn yn ifanc;
- roedd disgyblion yn teimlo'n gyffyrddus yn holi'r lluoedd arfog. Roedd y sesiynau a geid yn yr ysgol yn tueddu i fod yn fwy proffesiynol ac roedd yn bosibl eu bod wedi gwneud yn fach o'r agweddau negyddol, ond roedd disgyblion yn credu eu bod yn cael atebion gonest i gwestiynau wrth siarad â milwyr unigol;
- roedd yn bwysig bod disgyblion yn cael gofyn cwestiynau treiddgar am faterion anodd, yn enwedig o ran gyrfa fel y lluoedd arfog lle roedd straen a chanlyniadau'r gwaith yn wahanol o ran eu natur i'r mwyafrif o yrfaoedd eraill;
- roedd disgyblion yn beirniadu'r ffaith nad oedden nhw'n cael gwybodaeth am yrfaoedd a phroffesiynau gan gyflogwyr eraill, yn arbennig yn y sector cyhoeddus. Soniwyd am yr heddlu, y gwasanaeth tân a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn benodol yn y cyd-destun hwn.

60. Cafodd nifer o'r pwyntiau hyn eu hailadrodd mewn tystiolaeth lafar ffurfiol yn nes ymlaen y diwrnod hwnnw.

61. Dywedodd Mr Alex Barons, uwch-arweinydd cyswllt yn yr ysgol, wrth y Pwyllgor:

"I completely agree with a lot of the points that you have raised about getting other groups in to promote their professions. The school has a lot of freedom in terms of how much it gets people in to do things. The army is very willing and keen to come in; therefore, there is a lot of opportunity to come in because it is willing to do so."

Aeth ymlaen i ddweud:

"...getting other services in—especially other public services—can be trickier. If businesspeople have to give up their time, it costs them money and that can be difficult. In this school, particularly, we have good relationships with a lot of local entrepreneurs who come in and provide entrepreneurial workshops for the pupils before they go out to work experience and things like that. Those are often very successful. So, they

have some opportunities. However, it would be very helpful for people who work as careers advisers and those who co-ordinate 'Careers and the world of work' in schools to have guidance or framework from the Government to say which people should be coming into schools."

62. Dywedodd Ms Daisy Major, disgybl ym mlwyddyn 11, wrth y Pwyllgor ei bod yn gwybod bod angen peidio â glamoreiddio'r lluoedd:

"I just think that we do have access to other things, like I said, with the ambulance service coming in for work experience day and crucial careers and stuff. However, I think that there is an aspect where the army is glorifying it and making it look like it is better than it is. If it brought along people who could explain the risks of entering the army and the things that could happen, that would make it more balanced."

63. Dywedodd Mr Sebastian Collings, disgybl ac aelod o gyngor yr ysgol:

"Personally, I think that it is a good thing, because it would not be as strong as it is today if it did not recruit. It has to go somewhere to find people to go into the army. I agree with what you are saying in that it should not be forced upon students, but it should be providing a realistic view of what the army will be like. ... I think that they should do more realistic forms of army recruitment, giving people the choices in schools to go to experience it themselves, as I did. We camped with the proper TA, which opened my eyes to see that it was not for me, but if other people had the opportunity to do that, they could decide for themselves whether it would be for them, instead of just doing a day on the field that does not really show you what the army is really about."

64. Soniodd Ms Holly Hinson, un o brif ferched yr ysgol ac aelod arall o gyngor yr ysgol, am fanteision eraill:

"... They get GCSEs and qualifications out of it, which they would not normally get in school, so it is really quite helpful. [...] I could leave school straight away and go with them and get the qualifications and stuff. So, it does help. School does

take us on a lot of things. I do not think that the army should stop recruiting because it is really handy.”

65. Er ei fod yn cytuno y gallai cael y fyddin yn yr ysgol fod o gymorth, soniodd Mr Barons hefyd fod angen sicrhau na chât eu rôl ei glamoreiddio gan ddweud y byddai canllawiau ar hyn yn fuddiol:

“...there has to be a realistic view; it cannot be glamorised. It has to be a kind of open and honest thing. I think that that is very true, but I think that that is also very true of all professions. Anyone who comes into a school tries to promote their profession. I tell them all how wonderful teaching is, and how it is the best career in the world and that they should do it. I love my job, but it is not going to be for everyone. We all have a tendency to glamorise what we do, and that will be difficult to rule out completely. However, there has to be guidance on who should come in to promote their career choices in school.”

66. Er hynny, roedd yn credu bod ardegwyr yn gallu gweld drwy unrhyw agweddau a oedd yn ymddangos yn hudolus:

“When you are dealing with teenagers, you will know that they are quite savvy at teasing it out for themselves. ... Given that we are in an era of such mass media, people and teenagers can either see the glamorous side of the army or they can make a judgment for themselves from things that they can see on the internet or television about the not-so-glamorous side of the army.”

67. Trodd yn ôl at yr angen am fwy o ganllawiau i'r ysgolion:

“That is, I think, why it is really good that this deiseb has come before this committee, because, hopefully, as a result of that, there may be some guidelines as to what schools should do in terms of the army, but maybe also other public services in terms of them coming in. That would be something that, as schools, we would appreciate.”

Barn y Pwyllgor a'i Argymhellion

68. Bydd unrhyw gyflogwr yn mynd ati'n deg i dargedu ei ymdrechion recriwtio yn y modd mwyaf priodol ym marn y cyflogwr i ateb ei anghenion. Er hynny, mae'r lluoedd arfog yn unigryw yn yr

ystyr mai nhw yw'r unig gyflogwr lle mae'r recriwtiaid yn derbyn, fel un o swyddogaethau arferol eu cyflogaeth, y gall fod angen iddyn nhw niweidio neu ladd pobl eraill. Nid yw risg gymharol uchel o farw neu gael eich anafu'n unigryw i'r lluoedd arfog ond mae gofyn i'r recriwtiaid fynd ati'n fwriadol i'w gosod eu hunain mewn sefyllfaoedd lle mae'r risg ar ei mwyaf, yn wahanol i'r mwyafrif o swyddi hefyd. O'r safbwynt hwn, mae'n bosibl y dylid trin gwahoddiad i'r lluoedd arfog i ysgol â chryn dipyn yn fwy o ofal na chyflogwyr posibl eraill.

69. Er gwaethaf y gwahaniaethau sylfaenol hyn, mae ymuno â'r lluoedd arfog yn ddewis gyrfa dilys ac, i lawer, yn ddewis gyrfa priodol sy'n cynnig boddhad. Yn wir, nid yw llawer o'r rolau yn y lluoedd yn golygu ymladd na hyd yn oed risg sylweddol uwch o gael eich anafu neu o farw nag a geir mewn meysydd cyflogaeth tebyg.

70. Mae rhai o aelodau'r Pwyllgor yn rhannu pryderon dwys y deisebwyr bod y lluoedd arfog yn defnyddio ymweliadau ag ysgolion fel dull recriwtio a bod eu hymweliadau'n cael eu targedu ar ardaloedd cymharol ddifreintiedig. Mae'n ymddangos bod yna dystiolaeth bod y lluoedd arfog yn ymweld yn anghymesur o aml ag ardaloedd cymharol ddifreintiedig. Er hynny, does dim tystiolaeth lethol sy'n dangos bod y lluoedd arfog yn fwriadol yn targedu ysgolion yn yr ardaloedd hyn. Ar ben hynny, gallai atal y lluoedd rhag ymweld ag ysgolion, fel yr hoffai'r deisebwyr ei wneud, osod rhai pobl ifanc o dan anfantais, gan gynnwys y rhai o gefndir llai cefnog, wrth geisio sicrhau gyrfa a hyfforddiant o safon uchel iawn.

71. Er nad oes tystiolaeth lethol bod ysgolion mewn ardaloedd cymharol ddifreintiedig yn cael eu targedu'n fwriadol gan y lluoedd arfog, nid yw'r rhesymau dros y nifer anghymesur i bob golwg o ymweliadau ag ysgolion yn yr ardaloedd hyn yn eglur.

Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried a oes angen rhagor o ymchwil ar y rhesymau dros y nifer anghymesur i bob golwg o ymweliadau ag ysgolion mewn ardaloedd cymharol ddifreintiedig.

72. Naif fyddai credu nad oes gan y lluoedd awydd i'w darlunio'u hunain fel rhai sy'n cynnig cyfleoedd gyrfa diddorol a hwylus wrth iddyn nhw ymweld ag ysgolion. Er hynny, y dystiolaeth rydyn ni wedi'i chael gan ysgolion, disgyblion ac awdurdodau addysg yw nad yw'r llinell denau rhwng rhoi gwybodaeth i ddisgyblion am ddewisiadau gyrfa posibl a mynd ati i recriwtio disgyblion yn cael ei chroesi.

Doedd y disgyblion y buom yn siarad â nhw ym Mhrestatyn ddim yn teimlo pwysau i ymuno â'r lluoedd ac roedden nhw am i'r ymweliadau barhau. Yn wir, yn eu tystiolaeth lafar roedd y deisebwyr eu hunain a'u cefnogwyr yn cytuno nad oedd tystiolaeth bod pobl ifanc yn cael eu recriwtio mewn gwirionedd yn yr ysgol na bod gwaith y lluoedd arfog yn yr ysgolion yn llwyddiannus o ran denu recriwtiaid.

73. Mae'r deisebwyr wedi dadlau bod yna achos, ar sail foesol yn unig, dros atal recriwtio yn yr ysgolion, ond llwybr llithrig yw hwn. Gall dadleuon moesol gael eu cynnig hefyd yn erbyn mathau eraill o gyflogaeth a chyflogwr. Mae ar yr ysgolion gyfrifoldeb i sicrhau bod ymweliadau ag ysgolion yn gytbwys ac yn cael eu cynnal mewn ffordd sy'n caniatáu i'r disgyblion ofyn cwestiynau a chael atebion gonest iddyn nhw. Dylai'r ysgolion ofalu sicrhau hefyd nad yw gwaith y lluoedd arfog, sydd yn aml yn bur angenrheidiol, yn cael ei glamoreiddio'n ormodol a bod y risgiau'n cael eu hesbonio'n glir.

74. Er hynny, rydyn ni'n credu bod pobl ifanc, gyda chymorth a chyfarwyddyd eu hathrawon, yn hen ddigon atebol i ffurfio'u barn eu hunain ar foesoldeb rôl y lluoedd arfog. Yn wir, fe ddysten nhw gael eu hannog i feddwl am y materion hyn pan fydd y lluoedd yn ymweld ag ysgolion.

75. Serch hynny, yr hyn a oedd yn bur amlwg inni yn sgil ein hymweliad ag Ysgol Uwchradd Prestatyn oedd y byddai'r ysgolion yn croesawu rhagor o ganllawiau ynghylch gwahodd y lluoedd arfog i ysgolion, er mwyn sicrhau bod ymweliadau'n gytbwys ac yn briodol. Rydym yn cytuno y gallai hyn fod yn welliant synhwyrol.

Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu Fframwaith y Cwricwlwm Gyrfaedd a Byd Gwaith er mwyn sicrhau bod canllawiau ar wahodd y lluoedd arfog i ysgolion yn cymryd i ystyriaeth eu natur unigryw fel gyrfa a'r angen i hybu trafodaeth agored a gonest gyda'r disgyblion am eu rôl.

76. Fel eilbeth, un peth a oedd yn glir o'n hymweliad ag Ysgol Uwchradd Prestatyn oedd nad yw cyflogwyr eraill, yn enwedig yn y sector cyhoeddus, mor weithgar, nac mor llwyddiannus, â'r lluoedd arfog o ran esbonio'r cyfleoedd gyrfa y maen nhw'n eu cynnig. Hefyd, gall cost ymweld ag ysgolion fod yn ormod i fusnesau bach.

Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o ystyriaeth i'r ffordd orau i helpu ysgolion, busnesau a chyflogwyr i sicrhau bod ystod amrywiol o fusnesau a chyflogwyr yn ymweld ag ysgolion i roi gwybodaeth i'r disgyblion am y cyfleoedd gyrfa y maen nhw'n eu cynnig.

Casgliad

77. Rydym yn eithriadol o ddiolchgar i'r deisebwyr am gyflwyno'r ddeiseb. Mae wedi codi pryder dilys iawn ynghylch recriwtio pobl ifanc gan y lluoedd arfog. Rydym yn cydymdeimlo â'r pryderon hyn ac yn cytuno bod angen parhau'n wylidwrus er mwyn sicrhau nad yw rôl ddilys rhoi gwybodaeth i ddisgyblion am waith a rôl y lluoedd arfog yn troi'n gyfrwng recriwtio noeth.

78. Rydym yn ymwybodol nad yw'n hargymhellion yn mynd mor bell ag yr hoffai'r deisebwyr ei weld y tro hwn. Er hynny, dydyn ni ddim yn credu bod achos wedi'i brofi dros wahardd y lluoedd arfog yn llwyr o ysgolion Cymru ar hyn o bryd.

79. Hoffem gofnodi'n diolch unwaith eto i'r deisebwyr, i'r rhai a ymatebodd i'n hymgyngoriad ysgrifenedig ac i'r rhai a roddodd dystiolaeth ar lafar, yn enwedig disgyblion a staff Ysgol Uwchradd Prestatyn.

Atodiad A – Rhestr Ddosbarthu'r Ymgynghoriad Ysgrifenedig

- Sampl o ysgolion uwchradd – trefol, gwledig, ardaloedd difreintiedig, cefnog.
- *Undebau athrawon:*
 - o Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT)
 - o Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL)
 - o Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT)
 - o Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT)
 - o Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
 - o Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (ATL)
- Gwasanaeth Addysg yr Eglwys yng Nghymru
- Y Gwasanaeth Addysg Gatholig
- Gyrfa Cymru
- Elusennau Plant
- Comisiynydd Plant Cymru
- Plant yng Nghymru
- Gweithredu dros Blant
- Yr Ymddiriedolaeth Plant a Phobl Ifanc
- Barnardos Cymru
- NSPCC Cymru
- Achub y Plant
- Sefydliad Joseph Rowntree
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Cymdeithas Cadetiaid y Lluoedd Brenhinol yng Nghymru
- Swyddfa Gyrfaoedd y Lluoedd Arfog
- *Grwpiau Ffydd:*
 - o Undeb Bedyddwyr Cymru
 - o Cytûn

- Yr Eglwys yng Nghymru
- Eglwys Gatholig Cymru
- Cynghrair Efengylaidd Cymru
- Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru
- Cyngor Bwdhaidd Cymru
- Cyngor Siciaid y Deyrnas Unedig
- Iddewiaeth Ddiwygiedig
- Cyngor Mwslemiaid Cymru
- Cyngor Rhyng-ffydd Cymru
- Eglwys Fethodistaidd Cymru
- Eglwys Uniongred Cymru
- Eglwys Bresbyteraidd Cymru
- Cenhadaeth Uniongred Cymru
- Archesgob Cymru
- Ffydd y Baha’l
- Teml Hindŵaidd yr Eglwys Newydd
- Cyngor Cynrychioli Iddewon De Cymru
- Teml Shree Swaminarayan
- Cymdeithas y Cymod (y deisebwyr)
- Cymdeithas Dyneiddwyr Prydain
- Y Gymdeithas Seciwlar Genedlaethol
- Cyngor Ysgolion Annibynnol Cymru
- Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
- Sefydliad Bevan
- Oxfam Cymru
- Race Equality First

Atodiad B – Rhestr Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar yma:

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=1310>

18 Mehefin 2013

Sefydliad

Arfon Rhys

Cymdeithas y Cymod (Y Prif Ddeisebydd)

Emma Sangster

Forces Watch

Sara Hawys

Ban Schoolyard Recruitment

11 Tachwedd 2013

Sefydliad

Alex Barons

Uwch-arweinydd Cyswllt, Ysgol Uwchradd Prestatyn

Daisy Major

Disgybl, Ysgol Uwchradd Prestatyn

Sebastian Collings

Aelod o Gyngor yr Ysgol, Ysgol Uwchradd Prestatyn

Holly Hinson

Prif Ferch, Ysgol Uwchradd Prestatyn

Atodiad C – Rhestr o Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Ymatebodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn i ymgynghoriad y Pwyllgor. Gellir gweld pob ymateb yma:

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=4793>

<i>Person neu Sefydliad</i>	<i>Cyfeirnod</i>
Y Parchedig Gwynn ap Gwilym	PET(4) SAR 01
Cymdeithas y Cymod	PET(4) SAR 02
Comisiynydd Plant Cymru	PET(4) SAR 03
Y Dr Kelvin Mason	PET(4) SAR 04
ASCL Cymru	PET(4) SAR 05
Ban Schoolyard recruitment	PET(4) SAR 06
Y Dr Gwyn Williams	PET(4) SAR 07
Dorian Williams	PET(4) SAR 08
Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru	PET(4) SAR 09
Tim Hart	PET(4) SAR 10
John Williams	PET(4) SAR 11
Cyfarfod Crynwyr Lleol Llandrindod a'r Pales	PET(4) SAR 12
Fforwm Ieuenctid y Fro	PET(4) SAR 13
Y Parchedig R. G. Morris	PET(4) SAR 14
Hefin Jones	PET(4) SAR 15
ATL Cymru	PET(4) SAR 16
Amie Duggan	PET(4) SAR 17
Cymdeithas Lluoedd Wrth Gefna Chadetiaid Cymru	PET(4) SAR 18
Athro neu athrawes a ddymunai fod yn ddienw	PET(4) SAR 19
Cyfundeb Eglwysi Annibynnol Gorllewin Caerfyrddin	PET(4) SAR 20
UCAC	PET(4) SAR 21

Person neu Sefydliad

Y Parchedig Gwynn ap Gwilym

Jill Evans ASE

CLILC

ForcesWatch

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

S.W. Edwards

M. Angharad Roberts

Child Soldiers

Grŵp Heddwch Sir Conwy

Mererid Hopwood

Cyfeirnod

PET(4) SAR 01

PET(4) SAR 22

PET(4) SAR 23

PET(4) SAR 24

PET(4) SAR 25

PET(4) SAR 26

PET(4) SAR 27

PET(4) SAR 28

PET(4) SAR 29

PET(4) SAR 30

Atodiad D - Rhestr o'r Dystiolaeth Ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yma:
<http://www.senedd.cynulliad.cymru/ielssueDetails.aspx?Ild=4793&Opt=3>

<i>Sefydliad</i>	<i>Y Cyfarfod a'i hystyriodd</i>
Jeff Cuthbert AC, Y Dirprwy Weinidog Sgiliau	15 Ionawr 2013
Y Deisebydd	15 Ionawr 2013
Papur Cefndir gan y Tystion	18 Mehefin 2013
Y Gwir Anrh Mark Francois AS, Y Gweinidog Gwladol dros Bersonél Amddiffyn, Lles a Chynfilwyr	11 Tachwedd 2013
Gyrfa Cymru	10 Rhagfyr 2013
Y Deisebydd	10 Rhagfyr 2013